



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2012 Ystafell Bwyllgor 1, Cyngor Sir Ynys Môn

Presennol: Cyngor Gwynedd:

Cyng. John W Williams (Cadeirydd)
Cyng. Dafydd Meurig (eilydd)
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. Gethin Williams

Cyngor Sir Ynys Môn:

Cyng R LI Hughes (Is-Gadeirydd)
Cyng. W. J Chorlton
Cyng. Lewis Davies
Cyng. C McGregor
Cyng. E Roberts
Cyng. H Eifion Jones

Swyddogion

Jim Woodcock - Pennaeth Cynllunio a Gwasanaeth
Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn
Gareth Jones - Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol,
Cyngor Gwynedd
Nia Haf Davies - Rheolwr UPCC
Heledd Hughes - Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio, UPCC
Eirian Harris - Cymhorthydd Cefnogol, UPCC

Ymddiheuriadau: Cyng. Gwen Griffith - Cyngor Gwynedd
Cyng. Dyfrig Jones - Cyngor Gwynedd
Aled Davies - Pennaeth Adran Rheoleiddio

1. YMDDIHEURIADAU

Fel nodwyd uchod.

Ymddiheurodd Cyng. R LI Hughes am ei absenoldeb o'r Pwyllgor diwethaf (22/6/12)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Ni gyflwynwyd unrhyw fater brys.

4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a gynhaliwyd 22 Mehefin 2012 fel rhai cywir.

5. CASGLIADAU'R ADOLYGIAD TIR CYFLOGAETH

Rhoddyd crynodeb o'r broses ymgwymerwyd gan gwmni URS o ran cwblhau'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth ynghyd a gwybodaeth am brif negeseuon y gwaith.

Trafodaeth / Pwyntiau a Godwyd:

- Cywiro yr enw Morrison Close i Morrison Crescent
- Cafwyd eglurhad pellach am statws y rhai sy'n y categori gwaredu, h.y. Y byddai'r defnyddwyr / defnyddiau presennol yn aros ar y safle, na fyddai unrhyw ganiatâd cynllunio cyfredol yn cael ei ddileu, mae'n debyg na fyddent yn cael eu gwarchod yn benodol ar gyfer cyflogaeth yn unig yn y CDLI ar y Cyd, cyfleon i adnabod defnydd mwy addas os daw'r cyfle i wneud hynny yn y dyfodol.
- Pwysleisio'r angen am eglurhad i dermau technegol a'r angen i ddefnyddio iaith blaen (plain english / welsh).
- Cynnwys para 2.5.2 - dim yn glir. Eglurwyd arwyddocâd gwerthoedd negyddol (-) a senario 4) sef y 'double dip'. Eglurwyd arwyddocâd colofn 'cymhareg plot'.
- Pwysigrwyd i gael safleoedd o safon dda mor rhydd â phosib o gyfyngiadau ffisegol, gan gynnwys argaeledd isadeiledd, e.e. capasiti systemau carthffosiaeth. Cadarnhawyd y bydd unrhyw safle gaiff ei gynnwys yn y CDLI ar y Cyd wedi bod yn destun asesiad manylach a bydd yr asesiad yn cynnwys trafodaeth gyda'r darparwyr e.e. Dŵr Cymru a chydweithio gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cynghorau
- Tyddyn Lantern a Safle Eaton – dau safle wrth ei gilydd ac ansicrwydd pam fod un yn disgyn allan o'r broses

- Pwysigrwydd peidio colli cyfleon ar gyfer y dyfodol wrth lacio polisi am statws safleoedd rŵan, e.e. Tyddyn Lantern a Newry Beach
- Awgrymwyd fod Unedau Eiddo'r ddau Gyngor yn cael gwybod am gasgliadau'r astudiaeth
- Cytunwyd gyda statws safle Lairds
- Cefnogwyd yr egwyddor o adnabod safleoedd mewn mannau hygrych
- Gofynnwyd am statws Coed y Parc a Phantdreiniog, ger Bethesda. Cytunodd y swyddogion i edrych ar hyn.
- Cydnabod bod y risg o lifogydd yn broblem ac yn un all waethygu dros y blynnyddoedd a'r angen felly i fod yn cynllunio ymlaen yn ofalus
- Pwysigrwydd cydweithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri oherwydd y berthynas agos a dibyniaeth yr ardal honno ar safleoedd cyflogaeth yn ardal y CDLI ar y Cyd a thu hwnt i hynny.
- Awgrymiad i gyd weithio gyda'r Brifysgol a Betsi Cadwaladr – beth ydi eu gweledigaeth.

Derbynwyd yr adroddiad gan y Panel.

6. DATBLYGU'R HIERARCHAETH ANEDDLEOEDD

Rhoddyd crynodeb o'r papur gan ddangos enghreifftiau o'r materion sydd angen sylw.

Materion a Godwyd:

- Angen i gytuno ar a deall termau / categorïau o aneddleoedd er mwyn osgoi camddealltwriaeth yn nes ymlaen, e.e. canolfan drefol - beth fyddai rôl a chapasiti math yma o anheddle i ddatblygu. Angen hyn yn gynt nag yn hwyrach.
- Cam 3 - nodi mai dim ond tri phrif ganolfan sydd yn CDU Môn ac yn gefnogol y bydd y broses adnabod yr hierarchaeth ar gyfer y CDLI ar y Cyd yn adolygu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd fel sail i'r CDU rhag ofn bod llefydd fel Biwmares a Phorthaethwy'n cael eu categoreiddio'n anghywir.
- Cam 4 – ychwanegu gwybodaeth am gyfansoddiad y boblogaeth: oedran, mewnfudwyr.
- Cam 4 – ychwanegu gwybodaeth am broffil ieithyddol.
- Cam 4 – ychwanegu gwybodaeth am fodolaeth tai haf / tai gwyliau

- Cam 2 - pwysleisio rôl Aberystwyth i gyfarch anghenion rhai o gymunedau Gwynedd o ran gwaith a chyfleusterau / gwasanaethau. Yn awyddus i sicrhau bod trafodaethau'n digwydd gyda Chyngor Ceredigion. Nodi bod trafodaethau wedi digwydd yn gynharach wrth i Gyngor Ceredigion baratoi ei GCLI ef a bod swyddog o Geredigion yn cwrdd efo swyddogion polisi cynllunio Gogledd Cymru yn chwarterol. Cadarnhawyd y bydd trafodaethau mwy manwl yn digwydd rhwng rwan a diwedd y broses o baratoi'r CDLI ar y Cyd Adnau gyda Chyngor Ceredigion.
- Angen gwybodaeth yn y dyfodol am faint o'r cyfanswm boblogaeth yn ôl Cyfrifiad 2011 sydd yn y Parc Cenedlaethol Eryri ac felly faint o'r twf sydd yno.
- Angen llunio polisi i warchod siopau a thafarndai rhag newid defnydd er lles y gymuned.
- Pwysleisiwyd yr angen am drafodaeth fanwl yn y dyfodol am beth olygir gyda 'lleol' yng nghyd-destun datblygiad tai. Cyfeirwyd at y posibilrwydd o gael dulliau polisi gwahanol i ddelio hefo rhai materion, e.e. tai fforddiadwy neu farchnad agored ond bod angen tystiolaeth rymus i gefnogi pob dull yn arbennig os ydy o'n gwyrto o'r drefn arferol neu ddisgwyliadau cenedlaethol.

Derbyniwyd yr adroddiad gan y Panel.